Woodbine Willie

(ffyddlondeb / caredigrwydd / gweledigaeth)

Cyn i'r trên lithro'n araf ar hyd y cledrau gwelai'r milwyr ddyn rhyfedd yr olwg yn crwydro ar hyd y platfform. Ar ei gefn roedd dau fag, un ar bob ysgwydd. Dyna lle roedd yn mynd i mewn ac allan o'r cerbydau. Prin y byddai'n siarad â'r milwyr ond roedd ganddo rywbeth i'w roi i bob un ohonyn nhw. Tynnai baced o sigaréts o un bag, sigaréts Woodbine, ac o'r llall tynnai gopi o'r Testament Newydd. Pwy oedd y dyn rhyfedd hwn, tybed? Dyma Geoffrey Studdert Kennedy neu Woodbine Willie fel roedd y milwyr wedi ei lysenwi.

Mab i offeiriad ydoedd ac ar ôl treulio cyfnod byr fel athro penderfynodd ei fod am ddilyn ei dad yn offeiriad. O'r cychwyn roedd yn offeiriad gwahanol. Credai yn sicr ei fod yn cael ei alw i weithio ymysg y bobl dlawd. Byddai'n gweini ar bawb oedd mewn angen. Byddai'n helpu, nid yn unig aelodau o'i eglwys, ond pawb oedd yn wynebu caledi yn yr ardal. Byddai'n rhoi ei gyflog yn gyfan gwbl i helpu eraill. Roedd wrth ei fodd yn cyd-fyw â phobl anghenus. Roedd hefyd yn bregethwr gwahanol.

Byddai'n treulio oriau yn paratoi ei bregethau'n ofalus ac yna ar y Sul byddai'n traddodi'i bregeth mewn ffordd hwyliog. Mae sôn amdano unwaith yn eistedd ar ganllaw y pulpud a'i goesau'n hongian dros yr ymyl ac yn adrodd storïau digri, storïau oedd o fewn profiad ei wrandawyr. O dipyn i beth byddai dieithriaid yn troi i mewn i wrando arno. Byddai'r gynulleidfa'n cynyddu o Sul i Sul. Daeth yn enwog hefyd fel pregethwr yn yr awyr agored a thyrfaoedd yn dod i wrando arno, a chan ei fod yn bregethwr syml oedd yn siarad yn iaith y bobl roedden nhw'n deall neges Iesu Grist yn well.

Pan dorrodd y Rhyfel Byd Cyntaf ym 1914 penderfynodd Kennedy ei fod am ymuno â'r fyddin fel caplan i'r milwyr. Nid yn unig roedd yn cynnal gwasanaethau ac yn pregethu ond roedd hefyd yn byw efo'r milwyr – yn yfed, bwyta a chyd-ganu efo nhw. Byddai'n ysgrifennu llythyrau dros y rhai nad oedd yn gallu sgwennu. Byddai'n cynnal dosbarthiadau i ddarllen a deall y Beibl gan wneud yn siŵr fod gan bob un milwr gopi o'r Testament Newydd.

Ym merw'r brwydro byddai Kennedy efo'r milwyr yn y

ffosydd yn trin eu clwyfau ac yn gweddïo dros y rhai oedd wedi'u clwyfo. Daeth y papurau i glywed am ei wrhydri ond doedd gan Kennedy ddim diddordeb o gwbl yn yr hyn oedd ganddyn nhw i'w ddweud. Yr hyn a welai ef oedd bechgyn ifanc yn colli eu bywydau. Gwelodd erchylltra rhyfel ar ei waethaf. Pan ddaeth y rhyfel i ben penderfynodd Kennedy weithio dros Frawdoliaeth Ddiwydiannol Gristnogol, sef corff Cristnogol, oedd yn ceisio hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol ymhlith y dosbarth gweithiol.

Ym Mawrth 1929 ac yntau yn anterth ei weinidogaeth, ac yn annerch cynulleidfa yn Lerpwl, syrthiodd yn farw. Pan oedden nhw'n cario ei gorff yn yr arch rhoddodd rhyw ddyn – cyn-filwr yn ôl pob hanes – baced o sigaréts Woodbine ar yr arch.

Adnod: "Ymnerthwch yn yr Arglwydd." Effesiaid 6:10

Gweddi:

"Rho i mi nerth i wneud fy rhan
i gario baich fy mrawd
i weini'n dirion ar y gwan
a chynorthwyo'r tlawd." Amen

Trafod:

- Pam, debygech chi, roedd Studdert Kennedy yn rhannu sigaréts â'r milwyr?
- Beth ydi gwaith caplan yn y fyddin?